

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Gorffennaf 14, 2020 am 7:30yh o'r gloch.**

Presennol: Cynghorwyr: Carwyn Evans, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, John Hughes a Gareth Ellis. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau:

Simon Evans.

Yn absenoldeb Simon Evans, cadeirwyd y cyfarfod gan Carwyn Evans (Is-gadeirydd).

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 9, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Mehefin 9, 2020

Eitem 6. h. E-bost (8/7/2020) yn rhoi gwybod mae angen ysgrifennu'r siec i Siriol Teifi Edwards a bydd y siec yn cael ei throsglwyddo i gronfa Tarian Cymru. Wrth fynd i'r wefan Tarian Cymru mae angen rhoi yr arian i 'Donate Now' GoFund Me.

Penderfynwyd gwneud y taliad.

Eitem 12. b. Llythyr ateb (3/7/2020) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

- i. Mae ein cais i docio gordyfiant sy'n tyfu ar y wal rhwng yr Eglwys a'r gât y Fynwent, Llanelltyd wedi ei gyfeirio i Uned Cefnffyrdd.
- ii. Mae ein cais i archwilio'r wal rhwng y Curfew a mynedfa i stad Bro Cymer, Llanelltyd wedi ei gyfeirio i Uned Cefnffyrdd.
- iii. Bydd Peiriannydd yn archwilio'r ffordd ac yn cael gair gyda'r contractwr, os bydd angen, ynglŷn bod yn ddiofal yn malu craig yn ogystal â thyfiant yn Taicynhaeaf.

E-bost (7 a 8/7/2020) oddi wrth Uned Cefnffyrdd yn rhoi gwybod:

- i. y tîrffeddiawr sy'n gyfrifol am docio'r gordyfiant sy'n tyfu ar wal y fynwent.
Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Meurig Ashton i docio'r gordyfiant.
- ii. y tîrffeddiawr sy'n gyfrifol i gynnal y wal.
Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Adra i gael gwybod os nhw yw'r tîrffeddiawr.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisio (Valuation Office Agency) i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu ratingwales@voa.gsi.gov.uk. Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (13/7/2020) oddi wrth Marie Curie. Maent angen cymorth ariannol yn y dyddiau anodd hyn.

Penderfynwyd rhoi £100.

b. Balans yn y banc ar 29 Mehefin, 2020: £10,997.31.

6. Archwilio

a. Rhoddwyd yr hysbysiad, Cymraeg a Saesneg, ar hysbysfyrddau Bontddu, Llanelltyd a Taicynhaef. Rhoddwyd hefyd ar wefan y Cyngor. (Gweler Cofnodion Mehefin 9, 2020 Eitem 7.a.3.)

b. Cafwyd neges (22/6/2020) oddi wrth Archwiliwr Mewnol yn dweud bod angen cyhoeddi taliadau aelodau ar y gwefan. Gwnaethpwyd hyn.

c. Derbyniwyd (23/6/2020) yr adroddiad gan yr Archwiliwr Mewnol.
Anfonwyd copi i'r aelodau.

ch. Anfonwyd (29/6/2020) dogfenau oedd eu hangen i BDO.

7. Mynwent Llanelltyd

Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Meurig Ashton iddo docio ochr y gwrych sy'n dilyn y ffordd i Bont Llanelltyd, tocio hwyneb y gwrych sy'n wynebu y fynwent.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (22/6/2020) yn ymwneud â 'Llacio Cyfyngiadau Coronafirws - Ymgynghoriad Cymunedau'. Gyda Llywodraeth Cymru am lacio cyfyngiadau i ymwelwyr, mae'r Parc angen gwybod pa gyfyngiadau sydd ei angen. Maent angen gwybod cyn 29/6/2020.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (11/6/2020) oddi wrth Arweinydd Cyfathrebu, Cyngor Gwynedd yn amgáu Rhifyn 3 o Gyda'n Gilydd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (11/6/2020) oddi wrth Cynorthwydd Gweinyddol, Cyngor Gwynedd yn amgáu Pecyn Gwybodaeth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (26/6/2020) oddi wrth Arweinydd Cyfathrebu, Cyngor Gwynedd yn amgáu 4ydd Bwletin 'Gyda'n Gilydd'.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (1/7/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu Newyddlen Etholiad.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (2/7/2020) oddi wrth Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd. Gyda'r Llywodraeth am lacio rheolau ymwneud a Covid19, bydd bobol yn gallu teithio i ble bynnag yr hoffent fynd gyda mwy o ymwelwyr yn dod i'r Sir. Oherwydd hyn, mae'n gofyn am ein sylwadau beth ddylai'r Cyngor ei wneud i leddfu pryderon gyda'r economi yn ail agor.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. E-bost (5/7/2020) oddi wrth Mr Dwyrdd Williams yn dweud bod Contractwr torodd y gwair ar ochr ffordd o Isbri, heibio Pandy Bach ac at Bont Llanelltyd wedi gwneud gwaith gwael wrth dorri'r gwair pryd roedd yn wlyb ac yn gadael llanast o wastraff gwair ar y ffordd.

Cafwyd wybod bod y gwaith mae'r contractwr yn ei wneud yn yr ardal ddim yn dderbyniol a bod y mater yn nwylo Cyngor Gwynedd.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Mae Peredur Jenkins yn delio gyda mater 9.dd. uchod.

11. Materion Brys

a. Roedd Carwyn Evans o'r farn mae angen tacluso plot o dir sydd rhwng Yr Hen Swyddfa Bost a'r bont yn Bontddu. Mae Carwyn yn fodlon gwneud y gwaith ond mae angen tryc i gario'r gwastraff i'r safle Ail Gylchu.
